# Polisi Safon Preifatrwydd

# Privacy Standard Policy

## Cynnwys


| Adran | Tudalen O - I | Paragraff O - I |
|---|---|---|
| 1. Cyflwyniad | 4 | 1:01 – 1:05 |
| 2. Statws | 5 | 2:01 – 2.03 |
| 3. Polisi | 5 | 3:01 – 3:06 |
| 4. Diffiniadau | 6 | |
| 5. Cyd-destun | 8 | 5:01 – 5:04 |
| 6. Cwmpas | 9 | 6:01 – 6:04:h |
| 7. Egwyddorion Diogelu Data | 11 | 7:01 – 7:02 |
| 8. Cyfreithlondeb, Tegwch, Tryloywder | 11 | 8:01 – 8:03:4 |
| 9. Cyfyngiadau o ran Diben | 14 | 9:01 – 9:02 |
| 10. Lleihau Data | 14 | 10:01 – 10:04 |
| 11. Cywirdeb | 14 | 11:01 – 11:02 |
| 12. Cyfyngiadau o ran Storio | 15 | 12:01 – 12:05 |



Dyddiad Cyhoeddi  Catherine Lewis, Dirprwy Bennaeth / Dirprwy Prif Weithredwr / Mai 2018: Diweddarwyd gan Catherine Lewis / Tachwedd 2022

| | | |
|---|---|---|
| 13. Uniondeb Cyfrinachedd a Diogelwch | 15 | 13:01 – 13:02:3 |
| 14. Cyfyngiadau o ran Trosglwyddo | 17 | 14:01 – 14:03 |
| 15. Hawliau a Cheisiadau Gwrthrych y Data | 18 | 15:01 – 15:03 |
| 16. Atebolrwydd | 19 | 16:01 – 16:03:3 |
| 17. Newidiadau i'r Safon Preifatrwydd hon | 24 | 17:01 – 17:02 |
| 18. Cysylltiadau | 24 | |
| Atodiad 1:Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg 25 | | |

Os hoffech chi neu rywun yr ydych yn ei adnabod gael y ddogfen hon mewn fformat arall, cysylltwch â'r Adran AD yn hr@nptcgroup.ac.uk

## Adran 1 : Cyflwyniad

1:01 Mae angen i Grŵp Colegau NPTC ('y Grŵp') gadw peth gwybodaeth am ei staff, myfyrwyr a defnyddwyr eraill y Grŵp i ddibenion:-

- monitro perfformiad;
- monitro cyflawniadau;
- cydymffurfio ag iechyd a diogelwch;
- cyflogaeth staff;
- darparu'r cwricwlwm;
- cydymffurfiaeth statudol â chyrff cyllido, Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd.

1:02 Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth gyfredol, rhaid i wybodaeth gael -

- ei chasglu'n ddiogel;
- ei defnyddio'n deg;
- ei storio'n ddiogel;
- ei chadw rhag ei datgelu'n anghyfreithlon i bobl eraill.

1:03 I'r perwyl hwn, bydd y Grŵp yn cydymffurfio â'r Egwyddorion ar gyfer Prosesu Data Personol fel yr amlinellwyd yn Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) y DU, unrhyw ddeddfwriaeth ddiogelu data gyfredol sydd mewn grym yn y DU ac unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol i'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol neu'r Ddeddf Diogelu Data 2018. Rhaid i staff ac eraill sy'n prosesu neu ddefnyddio gwybodaeth, sicrhau y bydd data personol:-

- Yn cael ei brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw (Cyfreithlondeb, Tegwch a Thryloywder).
- Yn cael ei gasglu i ddibenion, penodedig, penodol, a dilys (Cyfyngiadau o ran Diben).
- Yn ddigonol, perthnasol ac wedi'i gyfyngu i'r hyn sydd ei angen o ran y dibenion y mae'n cael ei Brosesu ar eu cyfer (Lleihau Data).
- Yn gywir a phan fydd angen ei fod yn cael ei gadw'n gyfoes (Cywirdeb).
- Ni fydd data'n cael ei gadw mewn ffurf sy'n caniatáu adnabod Gwrthrychu Data yn hwy na sydd angen i'r dibenion y mae'r data yn cael ei Brosesu (Cyfyngiadau o ran Storio).
- Yn cael ei brosesu mewn ffordd sy'n sicrhau ei ddiogelwch gan ddefnyddio mesurau technegol a sefydliadol priodol i'w ddiogelu rhag Prosesu diawdurdod neu anghyfreithlon ac yn erbyn colled, dinistr neu ddifrod damweiniol (Diogelwch, Uniondeb a Chyfrinachedd).
- Nad yw'n cael ei drosglwyddo i wlad arall heb fod mesurau diogelu priodol ar waith (Cyfyngiadau o ran Trosglwyddo).
- Ei fod ar gael i Wrthrychau'r Data a bod gan Wrthrychau'r Data hawliau penodol o ran eu Data Personol (Hawliau a Cheisiadau Gwrthrychau'r Data).

1:04 Rhaid i'r Grŵp a'r holl staff neu eraill sy'n prosesu neu'n defnyddio gwybodaeth bersonol lynu wrth yr Egwyddorion hyn bob amser.

1:05 Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, yn rhoi hawl mynediad cyffredinol at yr holl wybodaeth gofnodedig a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf hefyd yn nodi eithriadau gan gynnwys gwybodaeth am staff a dysgwyr am y rheswm ei bod yn wybodaeth bersonol.

**Adran 2 : Statws**

2:01 Mae'r polisi hwn yn disodli unrhyw Bolisi Diogelu Data a gymeradwywyd cyn hyn. Cafodd ei gymeradwyo gan Uwch Dîm Rheoli'r Grŵp ar 16.05.18, cyfarfod y Cydbwyllgor Gwybodaeth ac Ymgynghori (JICC) a gynhaliwyd ar 16.05.18, a Bwrdd y Gorfforaeth ar 24.05.18.

2:02 Adolygwyd y polisi hwn gan y Dirprwy Bennaeth/Dirprwy Brif Weithredwr a chafodd ei gymeradwyo gan Uwch Dîm Rheoli'r Grŵp ar 23.11.2022 a'r Cydbwyllgor Gwybodaeth ac Ymghynghori (JICC) ar 18.01.2023.

2:03 Mae'r polisi hwn wedi bod yn destun Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg, ac mae wedi'i amgáu fel atodiad.

**Adran 3 : Polisi**

3:01 Bydd y Grŵp yn cydymffurfio â gofynion y GDPR ac, yn benodol ac unrhyw ddeddfwriaeth ddiogelu data gyfredol sydd mewn grym yn y DU ac unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol i'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol neu'r Ddeddf Diogelu Data 2018,ac, yn enwedig, yr Egwyddorion ar gyfer Prosesu Data Personol (gweler y crynodeb ym Mharagraff 1:03).

3:02 Yn ychwanegol at gyflawni ei rwymedigaeth statudol i gydymffurfio â'r GDPR, mae'r Grŵp yn gwneud hynny er mwyn bod yn agored, tryloyw ac atebol, fel sydd wedi'i ddiffinio gan Egwyddorion Nolan.

3:03 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae'r polisi hwn yn gymwys i bob un o fyfyrwyr, staff a defnyddwyr ehangach y Grŵp.

3:04 Mae'n bwysig sylweddoli os bydd staff neu fyfyrwyr yn torri'r ddeddfwriaeth bod hynny'n golygu y gallai'r Grŵp a'r unigolyn wynebu camau cyfreithiol a hawliadau posibl am iawndal sylweddol. Bydd unrhyw achosion lle mae'r ddeddfwriaeth yn cael ei thorri felly'n cael eu cymryd o ddifrif a gall olygu y byddai camau'n cael eu cymryd o dan Weithdrefnau Disgyblu'r Grŵp.

3:05 Nid yw'r GDPR wedi'i fwriadu i atal prosesu data personol, ond yn hytrach sicrhau bod hynny'n cael ei wneud yn deg a heb effaith andwyol ar hawliau gwrthrych y data.

3:06 Os yw data personol am gael ei brosesu'n gyfreithlon, rhaid iddo gael ei brosesu'n unol ag un o'r seiliau cyfreithlon a nodir yn y ddeddfwriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, cydsyniad gwrthrych y data i'r prosesu, neu fod y prosesu'n angenrheidiol i gyflawni

contract â gwrthrych y data, i gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae rhaid i'r rheolydd data gydymffurfio, neu er mwyn budd dilys y rheolydd data neu'r parti y mae'r data'n cael ei ddatgelu iddo. Pan fydd data personol sensitif yn cael ei brosesu, rhaid cydymffurfio ag amodau ychwanegol. Wrth brosesu data personol, fel rheolwyr data yn cyflawni ein dyletswyddau, byddwn yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r gofynion hynny.

**Adran 4 : Diffiniadau**

**Gwneud Penderfyniadau Awtomataidd (ADM):** pan wneir penderfyniad sy'n seiliedig ar Brosesu Awtomataidd (gan gynnwys proffilio) yn unig sy'n cynhyrchu effeithiau cyfreithiol neu sy'n cael effaith sylweddol ar unigolyn. Mae'r GDPR yn gwahardd Gwneud Penderfyniadau Awtomataidd (oni bai eu bod yn cydymffurfio ag amodau penodol) ond nid Prosesu Awtomataidd.

**Prosesu Awtomataidd:** unrhyw fath o brosesu Data Personol yn awtomataidd sy'n cynnwys defnyddio Data Personol i werthuso agweddau personol penodol sy'n gysylltiedig ag unigolyn, yn benodol i ddadansoddi neu ragweld agweddau sy'n ymwneud â pherfformiad yr unigolyn hwnnw yn y gwaith, ei sefyllfa economaidd, iechyd, hoffterau personol, dibynadwyedd, ymddygiad, lleoliad neu symudiadau. Mae Proffilio yn enghraifft o Brosesu Awtomataidd.

**Grŵp:** Coleg Castell-nedd Port Talbot a adwaenir fel Grŵp Colegau NPTC.

**Staff y Grŵp:** yr holl gyflogeion, gweithwyr, contractwyr, gweithwyr asiantaeth, ymgynghorwyr, cyfarwyddwyr, aelodau, llywodraethwyr ac eraill.

**Cydsyniad:** caniatâd y mae'n rhaid ei roi o wirfodd, sy'n benodol, ar sail gwybodaeth ac yn arwydd diamwys o ddymuniadau Gwrthrych y Data lle maent, trwy ddatganiad neu trwy gam positif pendant, yn dangos eu cydsyniad i Brosesu Data Personol sy'n gysylltiedig â hwy.

**Rheolydd Data:** yr unigolyn neu sefydliad sy'n penderfynu pryd, pam a sut i brosesu Data Personol. Mae'n gyfrifol am sefydlu arferion a pholisïau'n unol â'r GDPR. Ni yw Rheolydd Data'r holl Ddata Personol sy'n gysylltiedig â'n Staff a Data Personol a ddefnyddir yn ein busnes i'n dibenion masnachol ein hunain.

**Gwrthrych y Data:** unigolyn byw, adnabyddedig neu adnabyddadwy yr ydym yn cadw Data Personol amdano. Gall gwrthrychau fod yn wladolion neu breswylwyr unrhyw wlad a gallant fod â hawliau cyfreithiol o ran eu Data Personol.

**Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd Data (DPIA):** pecynnau cymorth ac asesiadau a ddefnyddir i ganfod a lleihau'r risgiau o weithgarwch prosesu data. Gellir cynnal DPIA fel rhan o Breifatrwydd trwy Ddylunio a bydd yn cael ei gynnal ar gyfer pob system neu raglen newid busnes o bwys sy'n cynnwys Prosesu Data Personol.

Dyddiad Cyhoeddi  Catherine Lewis, Dirprwy Bennaeth / Dirprwy Prif Weithredwr / Mai 2018: Diweddarwyd gan Catherine Lewis / Tachwedd 2022

**Swyddog Diogelu Data (DPO):** yr unigolyn y mae'n rhaid ei benodi mewn amgylchiadau penodol o dan y GDPR. Os nad oes DPO gorfodol wedi'i benodi, mae'r term hwn yn golygu rheolwr diogelu data neu benodiad arall gwirfoddol o DPO neu mae'n cyfeirio at dîm preifatrwydd data'r Grŵp gyda chyfrifoldeb am gydymffurfiaeth â diogelu data.

**EEA:** y 27 gwlad yn yr UE, a Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy.

**Cydsyniad Penodol:** cydsyniad lle mae angen datganiad clir a phenodol iawn (hynny yw, nid gweithred yn unig).

**Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR):** y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ( y rheoliad dilynol i GDPR *(EU) 2016/679*) ar ôl i'r DU adael yr UE ac a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2021. Mae Data Personol yn dod o dan y trefniadau diogelu cyfreithiol a bennir yn y GDPR.

**Data Personol:** unrhyw wybodaeth sy'n adnabod Gwrthrych y Data neu wybodaeth sy'n ymwneud â Gwrthrych y Data y gallwn ei adnabod (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) o'r data ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â dynodwyr eraill sydd yn ein meddiant neu y gallwn gael mynediad atynt. Mae Data Personol yn cynnwys Data Personol Sensitif a Data Personol dan ffug enw ond heb gynnwys data dienw neu ddata lle mae manylion adnabod unigolyn wedi cael eu dileu'n barhaol. Gall data personol fod yn ffeithiol (er enghraifft, enw, cyfeiriad e-bost, lleoliad neu ddyddiad geni) neu farn am ymddygiad neu weithredoedd yr unigolyn hwnnw.

**Tor Diogelwch Data Personol:** unrhyw weithred neu anwaith sy'n bygwth diogelwch, cyfrinachedd, uniondeb neu argaeledd Data Personol neu fesurau diogelu ffisegol, technegol, gweinyddol neu sefydliadol yr ydym ni neu ein darparwyr gwasanaeth trydydd parti yn eu rhoi ar waith i'w warchod. Mae colli, mynediad diawdurdod, datgelu neu gaffael Data Personol yn Dor Diogelwch Data Personol.

**Preifatrwydd trwy Ddylunio:** gweithredu mesurau technegol a sefydliadol priodol mewn ffordd effeithiol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r GDPR.

**Canllawiau Preifatrwydd:** mae canllawiau preifatrwydd y Grŵp a baratowyd i helpu i ddehongli a gweithredu'r Safon Preifatrwydd hon a Pholisïau Cysylltiedig ar gael ar SharePoint.

**Hysbysiadau Preifatrwydd (cyfeirir atynt hefyd fel Hysbysiadau Prosesu Teg) neu Bolisïau Preifatrwydd:** hysbysiadau ar wahân sy'n disgrifio gwybodaeth y gellir ei rhoi i Wrthrychau Data pan fydd y Grŵp yn casglu gwybodaeth amdanynt. Gall yr hysbysiadau hyn fod ar ffurf datganiadau preifatrwydd cyffredinol sy'n gymwys i grŵp penodol o unigolion (er enghraifft, hysbysiadau preifatrwydd cyflogeion neu bolisi preifatrwydd y wefan) neu gallant fod yn ddatganiadau preifatrwydd unigol, untro sy'n ymwneud â Phrosesu sy'n gysylltiedig â diben penodol.

**Prosesu neu Broses:** unrhyw weithgarwch sy'n cynnwys defnyddio Data Personol. Mae hyn yn cynnwys cael, cofnodi neu gadw'r data, neu ymgymryd â gweithgarwch neu set o weithgareddau ar y data gan gynnwys ei drefnu, newid, adennill, defnyddio, datgelu, dileu neu ei ddinistrio. Mae prosesu

hefyd yn cynnwys trosglwyddo neu anfon Data Personol at drydydd partïon.

**Data Personol dan Ffugenw:** amnewid gwybodaeth sy'n adnabod unigolyn yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gydag un neu fwy o ddynodwyr artiffisial neu ffugenwau fel na ellir adnabod yr unigolyn hwnnw, y mae'r data'n gysylltiedig ag ef heb ddefnyddio gwybodaeth ychwanegol sydd i gael ei chadw ar wahân ac yn ddiogel.

**Polisïau Cysylltiedig:** mae polisïau, gweithdrefnau gweithredu neu brosesau'r Grŵp sy'n gysylltiedig â'r Safon Preifatrwydd hon ac wedi'u creu i ddiogelu Data Personol ar gael ar SharePoint.

**Data Personol Sensitif:** gwybodaeth sy'n datgelu tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu debyg, aelodaeth o undeb llafur, cyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol, bywyd rhywiol, cyfeiriadedd rhywiol, data biometreg neu genetig, a Data Personol sy'n gysylltiedig â throseddau a chollfarnau.

**Adran 5: Cyd-destun**

5:01 Mae'r Safon Preifatrwydd hon yn dangos sut mae Grŵp Colegau NPTC ('y Grŵp') yn trafod Data Personol ein myfyrwyr, cyflogeion, cwsmeriaid, cyflenwyr, contractwyr a thrydydd partïon eraill.

5:02 Mae'r Safon Preifatrwydd yn gymwys i'r holl Ddata Personol sy'n cael ei Brosesu gennym, beth bynnag fo'r cyfrwng lle mae'r data'n cael ei storio a neu a yw'n ymwneud â chyflogeion, gweithwyr, cwsmeriaid, cleientiaid neu gysylltiadau cyflenwi, cyfranddalwyr, defnyddwyr y wefan neu unrhyw Wrthrych y Data arall o'r presennol neu'r gorffennol.

5:03 Mae'r Safon Preifatrwydd yn gymwys i holl staff y Grŵp ("chi"). Rhaid i chi ddarllen, ei ddeall a chydymffurfio â'r Safon Preifatrwydd wrth Brosesu Data Personol ar ein rhan a chael hyfforddiant ar ei ofynion. Mae'r Safon Preifatrwydd yn disgrifio'r hyn rydym yn ei ddisgwyl gennych chi er mwyn i'r Grŵp gydymffurfio â chyfraith gymwys. Mae eich cydymffurfiaeth â'r Safon Preifatrwydd yn orfodol. Mae Polisïau Cysylltiedig a Chanllawiau Preifatrwydd ar gael i'ch helpu i ddehongli a gweithredu'n unol a'r Safon Preifatrwydd. Rhaid i chi hefyd gydymffurfio â'r holl Bolisïau Cysylltiedig a Chanllawiau Preifatrwydd o'r fath. Gall torri unrhyw amodau o'r Safon Preifatrwydd arwain at gamau disgyblu.

5:04 Mae'r Safon Preifatrwydd (ynghyd â Pholisïau Cysylltiedig a Chanllawiau Preifatrwydd) yn ddogfen fewnol ac ni ellir ei rhannu â thrydydd partïon, cleientiaid neu rheoleiddwyr heb ganiatâd ymlaen llaw gan y Swyddog Diogelu Data (DPO).

**Adran 11: Cwmpas**

6:01 Rydym yn cydnabod y bydd trin Data Personol mewn modd cywir a chyfreithlon yn ennyn hyder yn y sefydliad a bydd yn sicrhau bod y busnes yn gweithredu'n llwyddiannus. Mae diogelu cyfrinachedd ac uniondeb Data Personol yn gyfrifoldeb holl bwysig ac yn un yr ydym yn ei gymryd o ddifrif bob amser. Mae'r Grŵp yn agored i ddirwyon posibl o hyd at £17.5 miliwn) neu 4% o gyfanswm y trosiant blynyddol byd-eang, pa un bynnag yw'r mwyaf ac yn ddibynnol ar natur y toramod, am fethu â chydymffurfio â darpariaethau'r GDPR.

6:02 Mae pob rheolwr yn gyfrifol am sicrhau bod staff y Grŵp yn cydymffurfio â'r Safon Preifatrwydd ac am yr angen i annog pob aelod o staff i weithredu arferion gweithio, prosesau, rheolaethau a chael hyfforddiant priodol i sicrhau cydymffurfiaeth o'r fath.

6:03 Mae'r DPO yn gyfrifol am oruchwylio'r Safon Preifatrwydd ac, fel bydd yn gymwys, am ddatblygu Polisïau Cysylltiedig a Chanllawiau Preifatrwydd. Gweler Adran 18 am fanylion cyswllt.

6:04 Cysylltwch â'r DPO os oes gennych chi unrhyw gwestiynu am y ffordd mae'r Safon Preifatrwydd neu'r GDPR yn gweithio neu os oes gennych chi unrhyw bryderon nad yw'r Safon Preifatrwydd yn cael wedi cael neu nid ei ddilyn. Yn benodol, rhaid i chi gysylltu â'r DPO bob amser yn yr amgylchiadau canlynol:

**(a)** os nad ydych yn siŵr o'r sail gyfreithlon rydych yn dibynnu arni i brosesu Data Personol (gan gynnwys y buddiannau dilys a ddefnyddir gan y Grŵp) (gweler paragraff *8:01* isod);

**(b)** os bydd angen i chi ddibynnu ar Gydsyniad a / neu angen cofnodi cydsyniad penodol (gweler paragraff *8:02* isod);

**(c)** os bydd angen i chi lunio Hysbysiadau Preifatrwydd neu Hysbysiadau Prosesu Teg (gweler *paragraff 8.3* isod);

**(d)** os nad ydych yn siŵr beth yw'r cyfnod cadw ar gyfer y Data Personol sy'n cael ei Brosesu (gweler Adran *12* isod);

**(e)** os nad ydych yn siŵr pa fesurau diogelwch neu eraill sydd angen i chi eu gweithredu i ddiogelu Data Personol (gweler *paragraff 13.01* isod);

**(f)** os oes achos o Dor Diogelwch Data Personol (*paragraff 13:02* isod);

**(g)** os nad ydych yn siŵr o dan ba sail i drosglwyddo Data Personol y tu allan i'r DU (gweler *Adran 14* isod);

**(h)** os oes angen unrhyw help arnoch i ddelio ag unrhyw hawliau y mae Gwrthrych y data'n holi yn eu cylch (gweler *Adran 15* );

**(i)** pan fyddwch yn cymryd rhan mewn, neu'n newid, gweithgarwch Prosesu newydd arwyddocaol, sy'n debygol o fod angen DPIA (gweler paragraff 16:05 isod) neu'n bwriadu defnyddio Data Personol i ddibenion heblaw'r hyn mae wedi'i gasglu ar ei gyfer;

**(j)** os ydych chi'n bwriadu ymgymryd ag unrhyw weithgarwch sy'n cynnwys Prosesu

Awtomataidd gan gynnwys proffilio neu Wneud Penderfyniadau'n Awtomataidd (gweler *paragraff 16:06* isod);

**(k)** os oes angen help arnoch i gydymffurfio â chyfraith gymwys wrth ymgymryd â gweithgarwch marchnata uniongyrchol (gweler *paragraff 16:07* isod); neu

**(l)** os oes angen help arnoch ag unrhyw gontractau neu feysydd eraill yn gysylltiedig â rhannu Data Personol â thrydydd partïon (gan gynnwys ein gwerthwyr) (gweler *paragraff 16:08* isod).

### Adran 7: Egwyddorion Diogelu Data Personol

7:01 Rydym yn glynu wrth yr egwyddorion sy'n gysylltiedig â Phrosesu Data Personol a geir yn y GDPR sy'n datgan y dylai Data Personol:

**(a)** Gael ei brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn ffordd dryloyw (Cyfreithlondeb, Tegwch a Thryloywder).

**(b)** Cael ei gasglu i ddibenion penodedig, penodol a dilys (Cyfyngiadau o ran Diben).

**(c)** Bod yn ddigonol, perthnasol ac wedi'i gyfyngu i'r hyn sy'n angenrheidiol o ran y dibenion mae'n cael ei Brosesu ar eu cyfer (Lleihau Data).

**(d)** Bod yn gywir a phan fydd angen, cael ei gadw'n gyfoes (Cywirdeb).

**(e)** Ni fydd yn cael ei gadw mewn ffurf sy'n galluogi adnabod Gwrthrychau Data yn hwy na sydd ei angen i'r dibenion mae'n cael ei Brosesu ar eu cyfer (Cyfyngiadau o ran Storio).

**(f)** Ei Brosesu mewn ffordd sy'n sicrhau ei ddiogelwch drwy ddefnyddio mesurau technegol a sefydliadol priodol i ddiogelu rhag Prosesu diawdurdod neu anghyfreithlon ac yn erbyn ei golli, ei ddinistrio neu ei ddifrodi'n ddamweiniol (Diogelwch, Uniondeb a Chyfrinachedd).

**(g)** Ni ddylai gael ei drosglwyddo i wlad arall heb fod mesurau diogelu priodol ar waith (Cyfyngiadau o ran Trosglwyddo).

**(h)** Ei fod ar gael i Wrthrychau'r Data a bod Gwrthrychau'r Data'n gallu gweithredu hawliau penodol mewn cysylltiad â'u Data Personol (Hawliau a Cheisiadau Gwrthrych y Data).

7:02 Rydym yn gyfrifol am gydymffurfiaeth a rhaid i ni allu dangos ein bod yn cydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data a restrwyd uchod (Atebolrwydd).

### Adran 8: Cyfreithlondeb, Tegwch, Tryloywder

#### 8:01 Cyfreithlondeb a Thegwch

8:01:1 Rhaid i Ddata Personol gael ei brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn ffordd dryloyw mewn cysylltiad â Gwrthrych y Data.

8:01:2 Cewch gasglu, Prosesu a rhannu Data Personol yn deg ac yn gyfreithlon ac i ddibenion cyfreithlon yn unig. Mae'r GDPR yn cyfyngu ar ein gweithredoedd yn ymwneud â Data Personol i ddibenion cyfreithlon penodol. Nid atal Prosesu Data yw bwriad y cyfyngiadau hyn, ond sicrhau ein bod yn Prosesu Data Personol yn deg a heb effaith andwyol ar Wrthrych y Data.

8:01:3 Mae'r GDPR yn caniatáu Prosesu i ddibenion penodol, a nodir rhai ohonynt isod:

**(a)** mae Gwrthrych y Data wedi rhoi ei Gydsyniad;

**(b)** mae angen Prosesu er mwyn cyflawni contract â Gwrthrych y Data;

**(c)** cyflawni ein rhwymedigaethau cydymffurfio cyfreithiol;

**(d)** gwarchod buddiannau hanfodol Gwrthrych y Data;

**(e)** gweithredu ein buddiannau dilys i ddibenion lle nad ydynt yn cael eu trechu am fod y Prosesu'n niweidio buddiannau na hawliau sylfaenol a rhyddid Gwrthrychau'r Data. Mae angen nodi'r dibenion lle'r rydym yn prosesu Data Personol ar gyfer buddiannau dilys yn yr Hysbysiadau Preifatrwydd neu Hysbysiadau Prosesu Teg perthnasol.

8:01:4 Rhaid i chi nodi a dogfennu'r sail gyfreithiol yr ydych yn dibynnu arni yn achos pob gweithgarwch Prosesu yn unol â chanllawiau'r Grŵp ar Sail Gyfreithiol i Brosesu Data Personol.

**8:02 Cydsyniad**

8:02:1 Caniateir i Reolydd Data brosesu Data Personol ar sail un neu ragor o'r seiliau cyfreithlon a nodir yn y GDPR, ac sy'n cynnwys Cydsyniad.

8:02:2 Mae Gwrthrych y Data yn cydsynio i Brosesu eu Data Personol os ydynt yn datgan eu cytundeb yn eglur naill ai trwy ddatganiad neu gam positif i Brosesu. Mae cydsyniad yn gofyn am weithred gadarnhaol felly nid yw tawelwch, blychau wedi'u ticio'n barod neu wneud dim yn debygol o fod yn ddigon. Os rhoddir Cydsyniad mewn dogfen sy'n delio â materion eraill, yna rhaid cadw'r Cydsyniad ar wahân i'r materion eraill hynny.

8:02:3 Rhaid i Wrthrychau'r Data allu tynnu eu Cydsyniad i Brosesu yn ôl ar unrhyw adeg a rhaid anrhydeddu'r cais hwnnw'n brydlon. Efallai y bydd angen adnewyddu Cydsyniad os ydych chi'n bwriadu Prosesu Data Personol i ddiben gwahanol ac anghydnaws nad oedd wedi'i ddatgelu pan roddodd Gwrthrych y Data ei Gydsyniad y tro cyntaf.

8:02:4 Oni bai ein bod yn gallu dibynnu ar sail gyfreithlon arall i Brosesu, bydd angen Cydsyniad Penodol fel arfer i Brosesu Data Personol Sensitif, ar gyfer Gwneud Penderfyniadau'n Awtomataidd ac i drosglwyddo data ar draws ffiniau. Fel arfer byddwn yn dibynnu ar sail gyfreithlon arall (ac ni fydd angen Cydsyniad Penodol) i Brosesu'r rhan fwyaf o fathau o Ddata Sensitif. Os bydd angen Cydsyniad Penodol, rhaid i chi gyhoeddi Hysbysiad Prosesu Teg i Wrthrych y Data i gofnodi Cydsyniad Penodol.

8:02:5 Bydd angen i chi allu dangos bod Cydsyniad wedi'i gofnodi a chadw cofnod o bob Cydsyniad

fel y bydd y Grŵp yn gallu dangos ei fod yn cydymffurfio â gofynion Cydsynio.

### 8.3 Tryloywder (Hysbysu Gwrthrychau'r Data)

8:03:1 Mae'r GDPR yn datgan bod yn rhaid i Reolyddion Data roi gwybodaeth fanwl, benodol i Wrthrychau Data sy'n dibynnu a oedd yr wybodaeth wedi'i chasglu'n uniongyrchol gan Wrthrychau Data neu o rywle arall. Rhaid cyflwyno gwybodaeth o'r fath trwy Hysbysiadau Preifatrwydd neu Hysbysiadau Prosesu Teg priodol, a bydd yn rhaid i'r rheini fod yn gryno, tryloyw, dealladwy, hygyrch, ac mewn iaith glir a syml fel y bydd Gwrthrych y Data'n gallu eu deall yn rhwydd.

8:03:2 Pan fyddwn yn casglu Data Personol yn uniongyrchol gan Wrthrychau Data, sy'n cynnwys i ddibenion adnoddau dynol neu gyflogaeth, rhaid i ni roi i Wrthrych y Data yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl y GDPR gan gynnwys pwy yw'r Rheolydd Data a'r DPO, sut a pham y byddwn yn defnyddio, Prosesu, datgelu, diogelu a chadw'r Data Personol hwnnw trwy Hysbysiad Prosesu Teg y bydd yn rhaid ei gyflwyno ar yr adeg pan fydd Gwrthrych y Data yn rhoi'r Data Personol gyntaf.

8:03:3 Pan fydd Data Personol yn cael ei gasglu'n anuniongyrchol (er enghraifft, gan drydydd parti neu ffynhonnell gyhoeddus), rhaid i chi roi i Wrthrych y Data yr holl wybodaeth sydd ei hangen yn ôl y GDPR cyn gynted â phosibl ar ôl casglu / cael y data. Rhaid i chi wirio hefyd bod y Data Personol a oedd wedi'i gasglu gan drydydd parti wedi'i gasglu'n unol â'r GDPR ac ar sail sy'n cyd-fynd â'n Prosesu arfaethedig o'r Data Personol hwnnw.

8:03:4 Rhaid i chi gydymffurfio â chanllawiau'r Grŵp ar lunio Hysbysiadau Preifatrwydd / Hysbysiadau Prosesu Teg.

### Adran 9: Cyfyngu o ran Diben

9:01 Rhaid casglu Data Personol i ddibenion penodol, penodedig a dilys yn unig. Ni chaniateir ei Brosesu ymhellach mewn unrhyw fodd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny.

9:02 Ni chewch ddefnyddio Data Personol i ddibenion newydd, gwahanol neu anghydnaws â'r dibenion hynny a ddatgelwyd pan gafwyd y data yn gyntaf oni bai eich bod wedi hysbysu Gwrthrych y Data o'r dibenion newydd a'u bod wedi Cydsynio pan fydd angen.

### Adran 10: Lleihau Data

10:01 Rhaid i Ddata Personol fod yn ddigonol, perthnasol ac wedi'i gyfyngu i'r hyn sy'n angenrheidiol o ran dibenion Prosesu'r data hwnnw.

10:02 Ni chewch Brosesu Data Personol oni bai eich bod yn gwneud hynny wrth gyflawni dyletswyddau eich swydd. Ni chewch Brosesu Data Personol am unrhyw reswm nad yw'n gysylltiedig â dyletswyddau eich swydd.

10:03 Ni chewch gasglu Data Personol oni bai bod angen i chi wneud hynny i gyflawni dyletswyddau eich swydd: peidiwch â chasglu gormod o ddata. Gwnewch yn siŵr bod unrhyw Ddata Personol a gesglir yn ddigonol ac yn berthnasol i'r dibenion a fwriadwyd.

10:04 Rhaid i chi sicrhau pan na fydd angen mwyach am Ddata Personol i'r dibenion penodedig, ei fod yn cael ei ddileu neu ei wneud yn ddienw yn unol â chanllawiau cadw data'r Grŵp.

**Adran 11: Cywirdeb**

11:01 Rhaid i Ddata Personol fod yn gywir ac, os oes angen, rhaid ei gadw'n gyfoes. Rhaid ei gywiro neu ei ddileu heb oedi os yw'n anghywir.

11:02 Byddwch yn sicrhau bod y Data Personol sy'n cael ei gadw a'i ddefnyddio gennym yn gywir, yn gyflawn, wedi'i gadw'n gyfoes a pherthnasol i'r diben y cafodd ei gasglu gennym. Rhaid i chi wirio cywirdeb unrhyw Ddata Personol ar adeg ei gasglu ac yna'n rheolaidd wedi hynny. Rhaid i chi gymryd pob cam rhesymol i ddinistrio neu newid Data Personol sy'n anghywir neu wedi dyddio.

**Adran 12: Cyfyngiadau o ran Storio**

12:01 Ni cheir cadw Data Personol mewn ffurf adnabyddadwy yn ddim hwy na sydd angen ar gyfer y dibenion y mae'n cael ei brosesu.

12:02 Ni chewch gadw Data Personol mewn ffurf sy'n galluogi adnabod Gwrthrych y Data yn ddim hwy na sydd angen ar gyfer y diben neu'r dibenion busnes dilys y cafodd ei gasglu'n wreiddiol gan gynnwys i'r diben o fodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifyddu neu adrodd.

12:03 Bydd gan y Grŵp bolisïau a gweithdrefnau cadw i sicrhau bod Data Personol yn cael ei ddileu ar ôl cyfnod rhesymol i'r dibenion yr oedd yn cael ei gadw, oni bai bod cyfraith yn golygu bod yn rhaid cadw data o'r fath am leiafswm o amser. Rhaid i chi gydymffurfio â pholisi'r Grŵp ar Gadw Data.

12:04 Byddwch yn cymryd pob cam rhesymol i ddinistrio neu ddileu oddi ar ein systemau'r holl Ddata Personol nad oes ei angen mwyach arnom yn unol â holl amserlenni a pholisïau cadw cofnodion perthnasol y Grŵp. Mae hyn yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol bod trydydd partïon yn dileu data o'r fath pan fydd hynny'n berthnasol.

12:05 Byddwch yn sicrhau bod Gwrthrychau Data yn cael eu hysbysu o ba hyd y bydd data'n cael ei storio a sut y penderfynir ar y cyfnod hwnnw mewn unrhyw Hysbysiad Preifatrwydd neu Hysbysiad Prosesu Teg cymwys.

**Adran 13: Uniondeb a Chyfrinachedd Diogelwch**

**13:01 Diogelu Data Personol**

13:01:1 Rhaid i Ddata Personol gael ei gadw'n ddiogel trwy fesurau technegol a sefydliadol priodol rhag Prosesu diawdurdod neu anghyfreithlon, a rhai ei golli, ei ddinistrio neu ei ddifrodi'n ddamweiniol.

13:01:2 Byddwn yn datblygu, gweithredu a chynnal mesurau diogelu sy'n briodol i'n maint, ein cwmpas a'n busnes, yr adnoddau sydd ar gael i ni, faint o Ddata Personol rydym yn berchen arno neu'n ei gadw ar ran eraill a risgiau hysbys (gan gynnwys defnyddio amgryptio a chadw data o dan Ffugenw pan yn gymwys). Byddwn yn gwerthuso ac yn rhoi prawf yn rheolaidd ar effeithiolrwydd y mesurau diogelu hynny i sicrhau diogelwch y Data Personol sy'n cael ei Brosesu gennym. Rydych yn gyfrifol am ddiogelu'r Data Personol a gedwir gennym. Rhaid i chi weithredu mesurau diogelwch rhesymol a phriodol rhag Prosesu Data Personol mewn modd anghyfreithlon neu ddiawdurdod ac yn rhag colli neu ddifrodi Data Personol yn ddamweiniol. Rhaid i chi gymryd gofal arbennig i ddiogelu Data Personol Sensitif rhag cael ei golli neu rhag mynediad, defnydd neu ddatgeliad diawdurdod.

13:01:3 Rhaid i chi ddilyn a defnyddio pob gweithdrefn a thechnoleg a roddir ar waith gennym i gadw pob Data Personol yn ddiogel o'r pwynt casglu i'r pwynt dinistrio. Ni chewch drosglwyddo Data Personol i ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti oni bai eu bod yn cytuno i gydymffurfio â'r polisïau a'r gweithdrefnau gofynnol a'u bod yn cytuno i roi mesurau digonol ar waith, fel y gofynnir am hynny.

13:01:4 Rhaid i chi gadw data yn ddiogel trwy ddiogelu cyfrinachedd, uniondeb ac argaeledd y Data Personol, a ddiffinnir fel a ganlyn:

**(a)** Mae cyfrinachedd yn golygu mai dim ond pobl sydd angen gwybod ac sydd wedi'u hawdurdodi i ddefnyddio Data Personol a gaiff fynediad ato.

**(b)** Mae uniondeb yn golygu bod Data Personol yn gywir ac yn addas i'r diben y cafodd ei brosesu ar ei gyfer.

**(c)** Mae argaeledd yn golygu bod gan ddefnyddwyr awdurdodedig fynediad at y Data Personol pan fydd ei angen arnynt i ddibenion awdurdodedig.

13:01:5 Rhaid i chi gydymffurfio a pheidio â cheisio torri'r mesurau diogelu gweinyddol, ffisegol a thechnegol sy'n cael eu rhoi ar waith a'u cynnal gennym yn unol â'r GDPR a safonau perthnasol i ddiogelu Data Personol.

**13:02 Rhoi Gwybod am Dor Diogelwch Data Personol**

13:02:1 Mae'r GDPR yn ei gwneud yn ofynnol bod Rheolyddion Data yn rhoi gwybod am unrhyw Dor Diogelwch Data Personol i'r rheolydd perthnasol ac, mewn amgylchiadau penodol, i Wrthrych y Data.

13:02:2 Rydym wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i ddelio ag unrhyw amheuaeth o Dor Diogelwch Data Personol a byddwn yn hysbysu'r Gwrthrychau Data neu unrhyw reolydd cymwys pan fydd gofyniad cyfreithiol arnom i wneud hynny.

Dyddiad Cyhoeddi Catherine Lewis, Dirprwy Bennaeth / Dirprwy Prif Weithredwr / Mai 2018: Diweddarwyd gan Catherine Lewis / Tachwedd 2022

13:02:3 Os ydych yn gwybod neu'n amau bod Tor Diogelwch Data Personol wedi digwydd, peidiwch â ceisio ymchwilio i'r mater eich hun. Dylech gysylltu ar unwaith â'r unigolyn neu'r tîm sydd wedi'i ddynodi fel y pwynt cyswllt allweddol mewn achosion o Dor Diogelwch Data Personol i'r DPO a dilyn eu cyfarwyddyd. Dylech gadw pob tystiolaeth sy'n gysylltiedig â'r Tor Diogelwch Data Personol posibl.

**Adran 14: Cyfyngiadau o ran Trosglwyddo**

14:01 Mae'r GDPR yn cyfyngu ar drosglwyddo data i wledydd y tu allan i'r DU er mwyn sicrhau nad yw lefel y diogelwch data sydd ar gael i unigolion trwy'r GDPR yn cael ei danseilio. Rydych yn trosglwyddo Data Personol sy'n deillio o un wlad ar draws ffiniau pan fyddwch yn trawsyrru, anfon, gweld neu gael mynediad at y data hwnnw mewn neu i wlad arall.

14:02 Ni chewch drosglwyddo Data Personol y tu allan i'r DU oni bai bod un o'r amodau canlynol yn weithredol:

**(a)** mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi penderfyniad sy'n cadarnhau bod y wlad yr ydym yn trosglwyddo'r Data Personol iddi yn gallu sicrhau lefel diogelu digonol ar gyfer hawliau a rhyddid y Gwrthrychau Data;

**(b)** bod mesurau diogelu priodol ar waith fel rheolau corfforaethol rhwymedigaethol (BCR), cymalau contract safonol a gymeradwywyd gan Lywodraeth y DU a/neu'r Comisiwn Ewropeaidd,os yw'r DU wedi derbyn statws digonolrwydd gan y Comisiwn Ewropeaidd, cod ymddygiad cymeradwy neu fecanwaith ardystio, a bod copi ohono ar gael oddi wrth y DPO;

**(c)** mae Gwrthrych y Data wedi rhoi Cydsyniad Penodol i'r trosglwyddiad arfaethedig ar ôl iddo gael ei hysbysu o unrhyw risgiau posibl; neu

**(d)** mae'r trosglwyddiad yn angenrheidiol am un o'r rhesymau eraill a nodir yn y GDPR gan gynnwys cyflawni contract rhyngom ni a Gwrthrych y Data, rhesymau budd y cyhoedd, i wneud, gweithredu neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol neu i warchod buddiannau hanfodol Gwrthrych y Data lle mae Gwrthrych y Data yn analluog yn gorfforol neu'n gyfreithiol rhag rhoi Cydsyniad ac, mewn rhai achosion prin, er mwyn ein buddiannau dilys ni.

14:03 Rhaid i chi gydymffurfio â chanllawiau'r Grŵp ar drosglwyddo data ar draws ffiniau.

**Adran 15: Hawliau a Cheisiadau Gwrthrych y Data**

15:01 Mae gan Wrthrychau Data hawliau o ran sut yr ydym yn trafod eu Data Personol. Mae'r rhain yn cynnwys hawliau i:

**(a)** tynnu Cydsyniad i Brosesu yn ôl ar unrhyw adeg;

**(b)** cael gwybodaeth benodol am weithgarwch Prosesu'r Rheolydd Data;

**(c)** gwneud cais i gael mynediad i'w Data Personol a gedwir gennym;

**(d)** ein hatal rhag defnyddio eu Data Personol i ddibenion marchnata uniongyrchol;

**(e)** gofyn i ni ddileu Data Personol os nad oes ei angen mwyach i'r dibenion y cafodd ei gasglu neu ei Brosesu neu i gywiro data anghywir neu i gwblhau data anghyflawn;

**(f)** cyfyngu Prosesu mewn amgylchiadau penodol;

**(g)** herio Prosesu sydd wedi cael ei gyfiawnhau ar sail ein buddiannau dilys neu er budd y cyhoedd;

**(h)** gofyn am gopi o gytundeb sy'n sail i drosglwyddo Data Personol y tu allan i'r DU;

**(i)** gwrthwynebu penderfyniadau sy'n seiliedig ar Brosesu Awtomataidd, gan gynnwys proffilio (ADM);

**(j)** atal Prosesu sy'n debygol o achosi niwed neu drallod i Wrthrych y Data neu unrhyw un arall;

**(k)** cael eich hysbysu o achos o Dor Diogelwch Data Personol sy'n debygol o fod yn risg uchel i'w hawliau a'u rhyddid;

**(l)** cwyno i awdurdod goruchwylio; ac

**(m)** mewn amgylchiadau prin, cael neu ofyn i'w Data Personol gael ei drosglwyddo i drydydd parti mewn ffordd strwythuredig, sy'n gyffredin ac mewn fformat sy'n cael ei ddarllen gan beiriant.

15:02 Rhaid i chi ddilysu hunaniaeth unigolyn sy'n gwneud cais am ddata o dan unrhyw un o'r hawliau a restrir uchod (peidiwch â gadael i drydydd parti eich perswadio i ddatgelu Data Personol heb awdurdodaeth briodol).

15:03 Rhaid i chi anfon cais a gewch gan unrhyw Wrthrych y Data ymlaen ar unwaith i'r DPO, a chydymffurfio â phroses ymateb i Wrthrychau Data'r Grŵp.

**Adran 16: Atebolrwydd**

16:01 Rhaid i'r Rheolydd Data weithredu mesurau technegol a sefydliadol priodol mewn modd effeithiol, i sicrhau cydymffurfiaeth ag egwyddorion diogelu data. Mae'r Rheolydd Data yn gyfrifol am, a rhaid gallu dangos, cydymffurfiaeth â'r egwyddorion diogelu data.

16:02 Rhaid i'r Grŵp gael adnoddau a rheolaethau digonol ar waith i sicrhau ac i ddogfennu cydymffurfiaeth â'r GDPR gan gynnwys:

**(a)** penodi DPO â chymwysterau addas (lle bydd angen) a swyddog gweithredol sy'n atebol am breifatrwydd data;

**(b)** gweithredu Preifatrwydd trwy Ddylunio wrth Brosesu Data Personol a chwblhau DPIAau pan fydd Prosesu'n golygu risg sylweddol i hawliau a rhyddid Gwrthrychau Data;

**(c)** integreiddio diogelu data mewn dogfennau mewnol gan gynnwys y Safon Preifatrwydd hon, Polisïau Cysylltiedig, Canllawiau Preifatrwydd, Hysbysiadau Preifatrwydd neu Hysbysiadau Prosesu Teg;

**(d)** hyfforddiant rheolaidd i Staff y Grŵp ar y GDPR, y Safon Preifatrwydd hon, Polisïau Cysylltiedig a Chanllawiau Preifatrwydd a materion diogelu data gan gynnwys, er enghraifft, hawliau Gwrthrych y Data, Cydsyniad, sail gyfreithiol, DPIA a Thor Diogelwch Data Personol. Rhaid i'r Grŵp gadw cofnod o hyfforddiant a fynychwyd gan Staff y Grŵp; a

**(e)** rhoi prawf yn rheolaidd ar y mesurau preifatrwydd a roddwyd ar waith a chynnal adolygiadau ac archwiliadau rheolaidd i asesu cydymffurfiaeth, gan ddefnyddio canlyniadau profion i ddangos cydymffurfiaeth.

### 16:03 Cadw Cofnodion

16:03:1 Mae'r GDPR yn ei gwneud yn ofynnol ein bod yn cadw cofnodion llawn a chywir o'n holl weithgarwch Prosesu Data.

16:03:2 Rhaid i chi gadw a chynnal cofnodion corfforaethol cywir sy'n adlewyrchu ein Prosesu gan gynnwys cofnodion o Gydsyniadau Gwrthrychau Data a gweithdrefnau i gael Cydsyniad yn unol â Pholisi a chanllawiau Cadw Cofnodion y Grŵp.

16:03:3 Dylai'r cofnodion hyn gynnwys, fel lleiafswm, enw a manylion cyswllt y Rheolydd Data a'r DPO, disgrifiadau eglur o'r mathau o Ddata Personol, mathau o Wrthrychau Data, gweithgarwch Prosesu, dibenion Prosesu, trydydd partïon sy'n cael Data Personol, lleoliadau storio Data Personol, trosglwyddiadau Data Personol, y cyfnod cadw Data Personol a disgrifiad o'r mesurau diogelwch sydd ar waith. Er mwyn cadw cofnodion o'r fath, dylid creu mapiau data a fydd yn cynnwys y manylion a amlinellwyd uchod ynghyd â llifau data priodol.

### 16.04 Hyfforddiant ac Archwilio

16:04:1 Mae'n ofynnol ein bod yn sicrhau bod Staff y Grŵp wedi cael hyfforddiant digonol i'w galluogi i gydymffurfio â chyfreithiau preifatrwydd data. Rhaid i ni hefyd roi prawf ar ein systemau a'n prosesau i asesu cydymffurfiaeth.

16:04:2 Rhaid i chi fynychu pob hyfforddiant gorfodol ar breifatrwydd data a sicrhau bod eich tîm yn cael hyfforddiant gorfodol tebyg yn unol â chanllawiau hyfforddiant gorfodol y Grŵp.

16:04:3 Rhaid i chi adolygu pob system a phroses sydd o dan eich rheolaeth yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Safon Preifatrwydd hon ac i wirio bod rheolaethau llywodraethu ac adnoddau digonol ar gael i sicrhau bod Data Personol yn cael ei ddefnyddio a'i ddiogelu'n briodol.

Dyddiad Cyhoeddi Catherine Lewis, Dirprwy Bennaeth / Dirprwy Prif Weithredwr / Mai 2018: Diweddarwyd gan Catherine Lewis / Tachwedd 2022

**16:05 Preifatrwydd trwy Ddylunio ac Asesiad o’r Effaith ar Breifatrwydd Data (DPIA)**

16:05:1 Mae’n ofynnol ein bod yn gweithredu mesurau Preifatrwydd trwy Ddylunio wrth Brosesu Data Personol trwy gyflwyno mesurau technegol a sefydliadol priodol (fel Data dan Ffugenw) mewn modd effeithiol, i sicrhau cydymffurfiaeth ag egwyddorion preifatrwydd data.

16:05:2 Rhaid i chi asesu pa fesurau Preifatrwydd trwy Ddyluniad y gellir eu gweithredu ar bob rhaglen / system / proses sy’n Prosesu Data Personol trwy ystyried y canlynol:

**(a)** y systemau diweddaraf;

**(b)** cost gweithredu;

**(c)** natur, cwmpas, cyd-destun a dibenion Prosesu; a’r

**(d)** tebygolrwydd amrywiol a difrifoldeb y risgiau i hawliau a rhyddid Gwrthrychau Data sy’n codi yn sgil Prosesu, yn cynnwys trosglwyddiadau rhyngwladol o ddata personol.

Rhaid i Reolyddion Data hefyd gynnal DPIAau yn achos Prosesu risg uchel.

Dylech gynnal DPIA (a thrafod eich canfyddiadau â’r DPO) pan fydd system neu raglenni newid busnes pwysig sy’n cynnwys Prosesu Data Personol yn cael eu gweithredu, gan gynnwys:

**(e)** defnydd o dechnolegau newydd (rhaglenni, systemau neu brosesau), neu newid technolegau (rhaglenni, systemau neu brosesau);

**(f)** Prosesu Awtomataidd gan gynnwys proffilio ac ADM;

**(g)** Prosesu Data Sensitif ar raddfa fawr; a

**(h)** monitro systematig, ar raddfa fawr mewn maes sy’n agored i’r cyhoedd.

Rhaid i DPIA gynnwys:

**(i)** disgrifiad o’r Prosesu, ei ddibenion a buddiannau dilys y Rheolydd Data os yn briodol;

**(j)** asesiad o angen a chymesuredd y Prosesu mewn perthynas â’i ddiben;

**(k)** asesiad o’r risg i unigolion; a

**(l)** y mesurau lliniaru risg sydd ar waith a dangos cydymffurfiaeth.

16:05:3 Rhaid i chi gydymffurfio â chanllawiau’r Grŵp ar DPIA a Phreifatrwydd trwy Ddylunio.

**16:06 Prosesu Awtomataidd (gan gynnwys Proffilio) a Gwneud Penderfyniadau Awtomataidd**

16:06:1 Yn gyffredinol, mae ADM wedi'i wahardd pan fydd penderfyniad yn cael effaith gyfreithiol neu effaith sylweddol debyg ar unigolyn oni bai:

**(a)** bod Gwrthrych y Data wedi rhoi Cydsyniad Penodol;

**(b)** bod y Prosesu wedi'i awdurdodi trwy gyfraith; neu

**(c)** mae'r Prosesu'n angenrheidiol i gyflawni neu lunio contract.

16:06:2 Os oes mathau penodol o Ddata Sensitif yn cael eu prosesu, yna ni fydd seiliau (b) nac (c) yn cael eu caniatáu ond gellir Prosesu Data Sensitif o'r fath lle mae'n angenrheidiol (oni bai bod modd defnyddio dulliau llai ymwthgar) yn achos budd cyhoeddus arwyddocaol fel atal twyll.

16:06:3 Os bydd penderfyniad yn seiliedig ar Brosesu Awtomataidd yn unig (gan gynnwys proffilio), yna rhaid i Wrthrychau Data gael eu hysbysu pan fyddwch yn cyfathrebu â hwy y tro cyntaf o'u hawl i wrthwynebu. Rhaid dwyn yr hawl hwn i'w sylw'n benodol a rhaid ei gyflwyno'n eglur ac ar wahân i wybodaeth arall. Hefyd, rhaid cael mesurau addas ar waith i ddiogelu hawliau a rhyddid a buddiannau dilys Gwrthrych y Data.

16:06:4 Rhaid i ni hysbysu Gwrthrych y Data hefyd o'r rhesymeg sydd wrth wraidd gwneud penderfyniadau neu broffilio, yr arwyddocâd a'r canlyniadau a ragwelir a rhoi'r hawl i Wrthrych y Data i ofyn am ymyriad dynol, i fynegi ei farn neu i herio'r penderfyniad.

16:06:5 Rhaid cynnal DPIA cyn bod unrhyw Brosesu Awtomataidd (gan gynnwys proffilio) neu weithgarwch ADM yn digwydd.

16:06:6 Os byddwch yn gysylltiedig ag unrhyw weithgarwch Prosesu sy'n cynnwys proffilio neu ADM, rhaid i chi gydymffurfio â chanllawiau'r Grŵp ar broffilio neu ADM.

**16:07 Marchnata Uniongyrchol**

16:07:1 Rydym yn gorfod cydymffurfio â rheolau a chyfreithiau preifatrwydd penodol pan fyddwn yn marchnata i'n cwsmeriaid.

16:07:2 Er enghraifft, mae angen cydsyniad ymlaen llaw gan Wrthrych y Data ar gyfer marchnata uniongyrchol electronig (er enghraifft, trwy e-bost, negeseuon testun neu alwadau awtomataidd). Mae eithriad cyfyngedig ar gyfer cwsmeriaid presennol a adwaenir fel 'optio i mewn meddal" yn caniatáu i sefydliadau anfon negeseuon testun neu e-bost marchnata os ydynt wedi cael manylion cyswllt wrth werthu i'r unigolyn hwnnw, eu bod yn marchnata cynnyrch neu wasanaethau tebyg, a'u bod wedi rhoi cyfle i'r unigolyn i optio allan o farchnata pan gafwyd y manylion am y tro cyntaf ac ym mhob neges wedi hynny.

16:07:3 Rhaid i'r hawl i wrthwynebu i farchnata uniongyrchol gael ei gynnig yn benodol i Wrthrych y Data mewn ffordd ddealladwy fel ei fod wedi'i wahaniaethu'n amlwg oddi wrth bob gwybodaeth arall.

16:07:4 Rhaid anrhydeddu gwrthwynebiad Gwrthrych y Data i farchnata uniongyrchol ar unwaith. Os

bydd cwsmer yn optio allan ar unrhyw adeg, rhaid rhoi'r gorau i ddefnyddio eu manylion cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn cynnwys peidio â chadw dim mwy o wybodaeth na'r hyn sydd ei angen i sicrhau bod hoffterau marchnata'n cael eu parchu yn y dyfodol.

16:07:5 Rhaid i chi gydymffurfio â chanllawiau'r Grŵp ar farchnata uniongyrchol i gwsmeriaid.

**16:08 Rhannu Data Personol**

16:08:1 Yn gyffredinol ni chawn rannu Data Personol â thrydydd partïon oni bai bod mesurau diogelu a threfniadau contract wedi eu rhoi ar waith.

16:08:2 Ni chewch rannu'r Data Personol a gedwir gennym â chyflogai arall, asiant neu gynrychiolydd ein grŵp (sy'n cynnwys is-gwmnïau a'n cwmni daliannol terfynol ynghyd â'i is-gwmnïau) oni bai bod angen i'r derbynnydd gael yr wybodaeth sy'n gysylltiedig â'i swydd a bod trosglwyddo'r wybodaeth yn cydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau trosglwyddo trawsffiniol cymwys.

16:08:3 Ni chewch rannu'r Data Personol a gedwir gennym â thrydydd partïon, fel ein darparwyr gwasanaeth oni bai:

**(a)** bod angen iddynt gael yr wybodaeth i ddibenion darparu gwasanaethau wedi'u contractio;

**(b)** bod rhannu'r Data Personol yn cydymffurfio â'r Hysbysiad Preifatrwydd a roddwyd i Wrthrych y Data ac, os oes angen, eich bod wedi cael Cydsyniad Gwrthrych y Data;

**(c)** bod y trydydd parti wedi cytuno i gydymffurfio â'r safonau, polisïau a gweithdrefnau diogelwch data gofynnol ac wedi rhoi mesurau diogelwch digonol ar waith;

**(d)** bod y trosglwyddo'n cydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau trosglwyddo trawsffiniol cymwys; a

**(e)** bod contract ysgrifenedig wedi'i weithredu'n llawn a'i fod yn cynnwys cymalau trydydd parti sydd wedi'u cymeradwyo yn y GDPR.

16:08:4 Rhaid i chi gydymffurfio â chanllawiau'r Grŵp ar rannu data â thrydydd partïon.

**Adran 17: Newidiadau i'r Safon Preifatrwydd hon**

17:01 Rydym yn cadw'r hawl i newid y Safon Preifatrwydd hon ar unrhyw adeg felly dylech wirio'n rheolaidd i gael y copi diweddaraf o'r Safon Preifatrwydd.

17:02 Nid yw'r Safon Preifatrwydd hon yn drech nag unrhyw gyfreithiau a gweithdrefnau preifatrwydd data cenedlaethol cymwys mewn gwledydd lle mae'r Grŵp yn gweithredu.

**Adran 18: Cysylltiadau**

| | |
|---|---|
| Rheolydd Data | Catherine Lewis |

Dyddiad Cyhoeddi Catherine Lewis, Dirprwy Bennaeth / Dirprwy Prif Weithredwr / Mai 2018: Diweddarwyd gan Catherine Lewis / Tachwedd 2022

| | |
|---|---|
| | 0330 818 9025<br>Catherine.lewis@nptcgroup.ac.uk |
| Swyddog Diogelu Data | Susan Kirby<br>0330 818 9014<br>data-protection-officer@nptcgroup.ac.uk |
| Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) | Gwefan: www.ico.org.uk<br>Llinell Gymorth: 0303 123 1113 |

**Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg a Dogfen Sgrinio**

Defnyddir y ddogfen hon i gofnodi'r asesiad i ganfod a yw polisi, arfer gweithio neu ddarpariaeth – neu newid iddynt – yn cael effaith negyddol neu bositif ar gydraddoldeb nodwedd warchodedig neu ar y defnydd o'r Iaith Gymraeg.

**Cam 1 – Sgrinio Cychwynnol**

Yn gyntaf, ystyriwch pa eitem sy'n cael ei hasesu a beth yw ei diben?

Gan ddefnyddio'r blychau isod, rhowch ddisgrifiad o'r polisi, arfer gweithio neu'r ddarpariaeth sy'n cael ei asesu gyda datganiad byr am yr hyn y bwriedir i'r eitem ei gyflawni (ei nodau a'i amcanion) a phwy sy'n cael eu heffeithio, e.e. staff, myfyrwyr, rhieni / gofalwyr, partneriaid ac ati.

| |
|---|
| **Disgrifiad o'r eitem:**<br><br>Polisi Safon Preifatrwydd |
| **Nodau ac Amcanion:**<br><br>Diben y Polisi Safon Preifatrwydd yw sicrhau bod holl ddata'r Grŵp, ym mhob fformat, yn cael ei brosesu a'i gadw mewn ffordd sy'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoliadol, gan gynnwys Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) y DU sy'n dod i rym ar 01.01.21. |
| **Y rhai a effeithir – e.e. staff, myfyrwyr, rhieni, partneriaid ac yn y blaen:**<br><br>Mae'r polisi hwn yn gymwys i bob unigolyn sy'n gweithio i'r Grŵp neu ar ei ran mewn unrhyw fodd, gan gynnwys cyflogeion ar bob lefel, cyfarwyddwyr, swyddogion, gweithwyr asiantaeth, gweithwyr ar secondiad, gwirfoddolwyr, interniaid, asiantau, contractwyr, ymgynghorwyr allanol, cynrychiolwyr trydydd parti a phartneriaid busnes. Bydd y Polisi Safon Preifatrwydd own yn gymwys i bob rheolydd data, prosesyddion a gwrthrychau data beth bynnag fo'u hoedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol . |

Gan ystyried yr eitem sy'n cael ei hasesu, defnyddiwch y blychau isod i gofnodi eich syniadau cychwynnol ar yr effeithiau posibl ar y naw nodwedd warchodedig a'r defnydd o'r Iaith Gymraeg.

| **Nodwedd Warchodedig** | **Effaith bosibl positif neu negyddol** |
|---|---|
| **Rhyw**<br><br>Gelwir yn rhywedd hefyd, ac mae'n golygu dyn neu fenyw | Nid oes gan y polisi effaith benodol ar rywedd. |
| **Hil**<br><br>Mae'n cyfeirio at nodwedd warchodedig Hil. Mae'n cyfeirio at grŵp o bobl a ddiffinnir gan eu hil, eu lliw, a'u cenedligrwydd (gan gynnwys dinasyddiaeth), tarddiad ethnig neu genedlaethol. | Mae'r GDPR yn diogelu Data Personol sy'n 'datgelu tarddiad hiliol neu ethnig' fel 'categori arbennig' o ddata a'i Brosesu fel 'prosesu sensitif'. O ganlyniad mae'r rheoliad newydd yn rhoi mesurau diogelu ychwanegol, felly mae hyn yn effaith bositif bosibl. |

| **Nodwedd Warchodedig** | **Effaith bosibl positif neu negyddol** |
|---|---|
| **Oedran**<br><br>Pan gyfeirir at hyn, mae'n cyfeirio at unigolyn sy'n perthyn i oedran penodol (e.e. rhai 32 oed) neu ystod oedran (e.e. rhai 18 - 30 oed). | Nid oes gan y polisi effaith benodol ar oedolion. |
| **Ailbennu Rhywedd**<br><br>Y broses o newid o unrhyw rhywedd i un arall | Nid oes gan y polisi effaith benodol ar unigolion â'r nodwedd warchodedig hon. |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol**<br><br>Pan fydd unigolyn yn cael ei ddenu'n rhywiol at eu rhyw eu hunain, y rhyw arall neu at y ddau ryw. | Mae'r GDPR yn diogelu Data Personol sy'n 'ymwneud â bywyd rhywiol a chyfeiriadedd rhywiol' fel 'categori arbennig' o ddata a'i Brosesu fel prosesu sensitif. O ganlyniad mae'r rheoliad newydd yn rhoi mesurau diogelu ychwanegol, felly mae hyn yn effaith bositif bosibl. |
| **Chrefydd a Chred**<br><br>Mae gan grefydd fel arfer yr ystyr a roddir iddo ond mae cred yn cynnwys credoau crefyddol ac athronyddol gan gynnwys diffyg cred (e.e. Anffyddiaeth). Yn gyffredinol, dylai cred effeithio ar eich dewisiadau mewn bywyd neu eich ffordd o fyw os yw am gael ei gynnwys yn y diffiniad. | Mae'r GDPR yn diogelu Data Personol sy'n ymwneud â 'chredoau crefyddol neu athronyddol' fel 'categori arbennig' o ddata a'i Brosesu fel prosesu sensitif. O ganlyniad rhaid Ddata Personol a brosesir sy'n ymwneud â chredoau crefyddol neu athronyddol fodloni o leiaf un o'r amgylchiadau diffiniedig. Gellid edrych ar hyn fel effaith bositif. |

Dyddiad Cyhoeddi  Catherine Lewis, Dirprwy Bennaeth / Dirprwy Prif Weithredwr / Mai 2018: Diweddarwyd gan Catherine Lewis / Tachwedd 2022

| | |
|---|---|
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth**<br>Beichiogrwydd yw disgwyl babi, mae Mamolaeth yn cyfeirio at y cyfnod ar ôl yr enedigaeth. | Mae'r GDPR yn diogelu Data Personol sy'n 'ymwneud ag iechyd'' fel 'categori arbennig' o ddata a'i brosesu fel prosesu sensitif. O ganlyniad, mae'r rheoliad newydd yn golygu mesurau diogelu ychwanegol, felly mae ganddo effaith bositif bosibl. |
| **Priodas a Phartneriaeth Sifil**<br><br>Priodas – rhwng cyplau o'r un rhyw neu rywiau gwahanol, Partneriaeth Sifil – rhwng cyplau o'r un rhyw | Nid oes gan y polisi effaith benodol ar unigolion â'r nodwedd benodol hon. |
| **Anabledd**<br><br>Unrhyw gyflwr tymor hir sy'n effeithio ar weithgarwch o ddydd i ddydd. Mae cyflyrau'n cynnwys nam ar y clyw, golwg neu nam corfforol, anabledd dysgu, iechyd meddwl, canser, HIV a MS | Mae'r GDPR yn diogelu Data Personol sy'n 'ymwneud ag iechyd'' fel 'categori arbennig' a'i Brosesu fel 'prosesu sensitif. Mae'r Bil yn cynnwys mesurau diogelu ychwanegol, felly mae effaith bositif bosibl. |

| **Yr Iaith Gymraeg** | **Effaith bosibl positif neu negyddol** |
|---|---|
| **Y Gymraeg** Mae Mesur y Gymraeg (Cymru)<br>2011 yn sicrhau hawliau cyfartal i siaradwyr Cymraeg, yn seiliedig ar yr egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Mae'r egwyddor wedi'i hymgorffori fel set o hawliau statudol yn y 182 o 'Safonau'r' Gymraeg sy'n gymwys i golegau Addysg Bellach (er 1 Ebrill 2018). Rhaid i ddatblygwyr neu adolygwyr polisïau sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r 'Safonau' perthnasol ac ystyried a ydynt yn cael effaith bositif neu negyddol arnynt. | Mae'r polisi ar gael yn Gymraeg. Ar ôl sgrinio'r polisi rydym yn hyderus nad oes dim effaith benodol ar y Gymraeg. |
| **Eglurhad – os yn briodol** | |

Dyddiad Cyhoeddi  Catherine Lewis, Dirprwy Bennaeth / Dirprwy Prif Weithredwr / Mai 2018: Diweddarwyd gan Catherine Lewis / Tachwedd 2022

| |
|---|
| |
| **Lefel Blaenoriaeth: canolig** |

**Cam 2 – Dadansoddiad**

Yn seiliedig ar y broses sgrinio uchod bydd angen i chi gynnal dadansoddiad i gadarnhau eich penderfyniad gwreiddiol. Isod, bydd angen i chi ddangos pa ddadansoddiad cydraddoldeb ac ieithyddol a wnaethpwyd ar yr eitem hon. Rhestrwch y dystiolaeth, y data a'r ffynonellau a ddefnyddiwyd i ddadansoddi'r effaith ar yr eitem hon (dylech gynnwys unrhyw ddata, adroddiadau, arolygon neu ddolenni gwefannau a ddefnyddiwyd yn y broses).

| Nodweddion Gwarchodedig | Ffynhonnell Data a Chanfyddiadau |
|---|---|
| **Rhyw** | Byddwn yn monitro sut mae'r polisi a'r gweithdrefnau'n gweithio'n ymarferol ac yn ystyried unrhyw adborth neu wybodaeth berthnasol yn yr adolygiad nesaf. |
| **Hil** | Wrth sgrinio'r polisi cafodd y ffynhonnell ganlynol ei defnyddio a'i hystyried:<br>www.gov.uk/ Yr Adran dros Ddiwylliant a'r Cyfryngau (Bil Diogelu Data – Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb) |
| **Anabledd** | |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | |
| **Oedran** | |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | |
| **Priodas a Phartneriaeth Sifil** | |

| | |
|---|---|
| **Chrefydd a Chred** | |
| **Ailbennu Rhywedd** | |
| **Defnydd o'r Iaith Gymraeg** | **Ffynhonnell Data a Chanfyddiadau** |
| **Y Gymraeg** | |

**Cam 3 – Ymgysylltu/Ymgynghori ac Asesu**

Yn dilyn eich dadansoddiad, bydd angen i chi'n awr gofnodi sut yr ydych wedi asesu'r eitem ac â phwy yr ymgysylltwyd yn y broses. Sut wnaethpwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a'r Gymraeg, pwy oedd yn gysylltiedig â'r penderfyniad?

| Grŵp a effeithir | Natur effaith bositif a / neu negyddol neu esboniad am ddim effaith benodol |
|---|---|
| **Rhyw** | Fel Cam 1 |
| **Hil** | Fel Cam 1 |
| **Anabledd** | Fel Cam 1 |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Fel Cam 1 |
| **Oedran** | Fel Cam 1 |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Fel Cam 1 |
| **Priodas a Phartneriaeth Sifil** | Fel Cam 1 |
| **Chrefydd a Chred** | Fel Cam 1 |

| | |
|---|---|
| **Ailbennu Rhywedd** | Fel Cam 1 |
| **Y Gymraeg** | Fel Cam 1 |

**Cam 4 – Lliniaru a Newidiadau**

Yn olaf, nodwch pa newidiadau sydd wedi'u gwneud neu newidiadau sydd yn yr arfaeth yn dilyn yr asesiad a'r ymgysylltu i leihau neu ddiddymu unrhyw effaith andwyol.

| Effaith | Newid posibl | Wedi'i argymell a'i gyflawni |
|---|---|---|
| Nid yw'n gymwys am na ragwelir dim effaith andwyol. | | |
| | | |

| Datganiad o gyfiawnhad a lliniaru os na ellir osgoi effaith negyddol |
|---|
| **Amherthnasol** |

| Cofnod o Dystiolaeth |
|---|

1. **Ymgynghori**

Pa ymgynghori sydd wedi digwydd? (nodwch pa bryd ac â phwy)

| Y broses ymgynghori | Canfyddiadau |
|---|---|
| Yr Uwch Dîm Rheoli a JICC | |

2. **Cyhoeddi**

Pa bryd fydd yr E&LIA yn cael ei gyhoeddi?

| Dyddiad a dull: Bydd yn cael ei atodi at y polisi fel atodiad. |
|---|

Dyddiad Cyhoeddi Catherine Lewis, Dirprwy Bennaeth / Dirprwy Prif Weithredwr / Mai 2018: Diweddarwyd gan Catherine Lewis / Tachwedd 2022

## 3. Monitro ac Adolygu

Sut fydd yr eitem hon yn cael ei hadolygu a'i monitro

| |
|---|
| **Unigolyn arweiniol neu grŵp yn gyfrifol a dyddiadau adolygu: Pryd yr adolygwyd y polisi oni bai bod deddfwriaeth newydd wedi'i chyflwyno yn y cyfamser.**<br><br>**Dirprwy Bennaeth / Dirprwy Brif Weithredwr** |

**Rhestr wirio**

- A oes datganiad mewn fformat amgen wedi'i gynnwys ar ddechrau'r ddogfen bolisi? Os hoffech chi neu rywun rydych yn ei adnabod gael y ddogfen hon mewn fformat amgen cysylltwch â'r Uned Adnoddau Dynol yn hr@nptcgroup.ac.uk.

  A yw'r ddogfen wedi cael ei fformatio'n unol â chanllawiau cyhoeddi a thempled polisi Grŵp Colegau NPTC?

- A yw'r paragraff Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi ei gynnwys ar ddiwedd adran 1 pob polisi? Os oes angen cymorth ar aelod o staff i ddeall neu weithredu'r polisi hwn, yn enwedig os yw'r rhesymau am hyn yn ymwneud ag anabledd, crefydd neu gred, rhyw, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd neu famolaeth, oedran neu hil, dylent gysylltu â'r Uned Adnoddau Dynol, yn y lle cyntaf am gyngor.

- Pan fyddwch wedi cwblhau'r gwaith papur, dylech sicrhau ei fod yn cael ei ychwanegu fel atodiad i'r polisi neu'r weithdrefn berthnasol.

- Unrhyw gwestiynau? Cysylltwch â'r Uned Adnoddau Dynol ar neu trwy e-bostio hr@nptcgroup.ac.uk

Dyddiad Cyhoeddi  Catherine Lewis, Dirprwy Bennaeth / Dirprwy Prif Weithredwr / Mai 2018: Diweddarwyd gan Catherine Lewis / Tachwedd 2022

**Llofnod y Rheolwr Asesu ac aelodau eraill o’r staff sy’n cwblhau ELIA**

Enw (au) – llythrennau bras

Catherine Lewis, Dirprwy Bennaeth / Dirprwy Brif Weithredwr

Melanie Dunbar, Rheolwr Adnoddau Dynol



Llofnod (ion)                                        Dyddiad   23.01.2023

Dyddiad Cyhoeddi  Catherine Lewis, Dirprwy Bennaeth / Dirprwy Prif Weithredwr / Mai 2018: Diweddarwyd gan Catherine Lewis / Tachwedd 2022